Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru
West Wales Regional Partnership Board

# LLYTHYR NEWYDDION BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GORLLEWIN CYMRU

Croeso cynnes iawn i rifyn mis Mai Llythyr Newyddion Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru.

Mae'r llythyr newyddion hwn yn tynnu sylw at yr hyn y mae'r tîm a'r partneriaid ehangach wedi bod yn ei wneud dros y mis diwethaf.

**I lywio trwy'r gwahanol adrannau, cliciwch y botwm Dewislen Llywio (gwaelod dde y sgrin):**

Gweithio mewn partneriaeth gyda **Llywodraeth Cymru**
Working in partnership with **Welsh Government**

## Dewch i gwrdd ag aelodau newydd ein tîm!



### Lauran Lau

Helo, Lauran Lau ydw i ac fe ymunais â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru fel Arweinydd Prosiect Cyfalaf yn Ebrill 2025. Mae fy nghefndir yn cynnwys gweithio ar wahanol dreialon Clinigol, gan arbenigo mewn Gwyliadwriaeth Ffarmacolegol a Diogelwch Cleifion yn y sector Ymchwil a Datblygu. Yn fwyaf diweddar, fi oedd y Rheolwr Prosiect Ymchwil a Datblygu Cynnyrch ar gyfer Pentre Awel gan ganolbwyntio ar Ymchwil, Arloesi a

llywodraethu yn y sector gwyddorau bywyd a chydweithio â nifer o academyddion, y bwrdd iechyd, a rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol.

### Claire Williams

Fy swydd flaenorol oedd Cydlynydd y Bartneriaeth Ranbarthol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, ac rwy'n edrych ymlaen yn eiddgar at her fy rôl newydd fel Rheolwr Prosiect Nyth/Nest gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a hyrwyddo'r gwaith o roi Fframwaith Nyth/Nest ar waith, i gefnogi babanod, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd ledled Gorllewin Cymru.

### Laura Edwards

Laura Edwards ydw i ac fe ymunais â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru fel Arweinydd Prosiect Cyfalaf yn Ebrill 2025. Rwyf wedi gweithio yng Nghyngor Sir Caerfyrddin ers dros 15 mlynedd mewn sawl swydd, yn fwyaf diweddar o fewn Datblygu Economaidd gan ddarparu grantiau a phrosiectau gan gynnwys Cronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU a Chronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU. Roedd y grant yn cynnig cymysgedd o gyllid cyfalaf a refeniw wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion lleol mewn cymunedau a chefnogi busnesau lleol. Rwy'n edrych ymlaen at weithio'n rhanbarthol yn fy rôl newydd fel arweinydd cyfalaf a defnyddio fy sgiliau i gyflawni gwaith a blaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru.

## Gweithdai recriwtio a chadw staff

Gofalwn.cymru | WeCare.wales

Neges gan Gofalwn Cymru

Cyfres o weithdai am ddim ar gyfer rheolwyr gofal cymdeithasol. Bydd y gweithdai hyn yn canolbwyntio ar heriau a datrysiadau problemau recriwtio a chadw staff ym maes gofal cymdeithasol,

Bydd y gweithdai hanner diwrnod hyn yn cael eu cyflwyno ar-lein trwy Teams. Bydd yn cynnwys gweithgareddau a chyfleoedd i gyfrannu, a dysgu ar y cyd. Mae pob sesiwn yn dilyn y sesiwn flaenorol, felly rydyn ni'n cynghori mynychu pob sesiwn yn y drefn gywir, er mwyn manteisio gymaint a bosib.

Sesiwn 1 – Dydd Gwener, 6 Mehefin 2025, 9:15am-12:30pm

Deall rôl rhinweddau a gwerthoedd a rennir yn y broses recriwtio a chadw staff.

Sesiwn 2 – Dydd Gwener, 20 Mehefin, 9:15am-1pm

Deall eich cynulleidfa darged a'u  hanghenion mewn recriwtio gofal  cymdeithasol.

Sesiwn 3 – Dydd Gwener, 4  Gorffennaf, 9:15am-12:30pm

Nodi a chael gwared ar rwystrau i  gyflogi ym maes gofal cymdeithasol.

Sesiwn 4 – Dydd Gwener, 18  Gorffennaf, 9:15am-1pm

Dull recriwtio sy'n seiliedig ar  werthoedd. Cofrestrwch yma.

## Ymgynghoriad Cynllun Gwasanaethau Clinigol

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

Neges gan un o’n partneriaid:

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd) yn darparu gwasanaethau iechyd i bobl ledled Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, a Sir Benfro a hefyd i gymunedau cyfagos. Rydym bellach yn ymgynghori ar newidiadau posibl i naw gwasanaeth clinigol, a gallai hyn effeithio ar ba ysbytai y cânt eu darparu. Y naw gwasanaeth yw Gofal Critigol, Dermatoleg, Llawfeddygaeth Gyffredinol Frys, Endosgopi, Offthalmoleg, Orthopaedeg, Radioleg, Strôc, ac Wroleg. Rydym yn croesawu adborth gan y cyhoedd, ein staff, rhanddeiliaid a grwpiau yr effeithir arnynt gan ein cynigion.

Rydym wedi cydnabod ers sawl blwyddyn bod rhai o’n gwasanaethau ysbyty yn fregus. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod ein timau clinigol wedi'u gwasgaru ar draws safleoedd lluosog, ac weithiau rydym yn dibynnu ar staff unigol. Hefyd, mae effeithiau pandemig COVID-19 yn parhau i effeithio arnom ni. Mae wedi ein gadael â rhestrau aros hir, bylchau staffio (wedi'u gwneud yn waeth gan brinder yn genedlaethol ar gyfer rhai staff gofal iechyd), pwysau gofal cymdeithasol, a mwy o alw am wasanaethau iechyd. Nid yw rhai o'n gwasanaethau wedi gallu dychwelyd i lefelau gweithgarwch cyn-bandemig. Mae hyn yn golygu bod cleifion yn aros yn hirach nag yr hoffem am rywfaint o ofal wedi'i gynllunio.

O ystyried yr heriau, rydym wedi datblygu Cynllun Gwasanaethau Clinigol, gydag opsiynau i newid naw gwasanaeth. Mae hyn o fewn amserlen o hyd at bedair blynedd ar ôl y penderfyniad a hefyd yn ystyried pa newidiadau pellach y gellid eu gwneud ymhen mwy na phedair blynedd. I grynhoi, mae’r cynllun yn ceisio:

- ymateb i freuder y gwasanaethau gofal critigol a llawfeddygaeth gyffredinol frys

- gwella safonau a chanlyniadau, a mynd i'r afael â heriau staffio yn y gwasanaeth strôc
- gwella mynediad a lleihau amseroedd aros ar gyfer cleifion gofal wedi'i gynllunio (offthalmoleg, dermatoleg, wroleg ac orthopedeg) a diagnosteg (endosgopi a radioleg).

Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym am i chi ddweud wrthym:

- pa opsiynau arfaethedig sydd orau yn eich barn chi i fynd i'r afael â bregusrwydd yn ein gwasanaethau, gwella safonau neu leihau amseroedd aros
- pryderon a allai fod gennych am unrhyw un o'r opsiynau, neu'r effeithiau y credwch y gallent eu cael
- syniadau a allai fod gennych am rôl ein hysbytai yn y dyfodol
- unrhyw beth arall y credwch y mae angen i ni ei ystyried, gan gynnwys opsiynau neu syniadau eraill a allai fod gennych.

I gael gwybodaeth am yr ymgynghoriad, darllenwch ein dogfen ymgynghori sy’n cyd-fynd â’r holiadur hwn a/neu ewch ar-lein i: [https://biphdd.gig.cymru/ymgynghoriad-gwasanaethau-clinigol](https://biphdd.gig.cymru/ymgynghoriad-gwasanaethau-clinigol)

Gall aelodau’r cyhoedd hefyd ymuno â ni mewn digwyddiadau galw heibio cyhoeddus i gael paned o de neu goffi a gofyn i staff y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys clinigwyr, unrhyw gwestiynau am yr opsiynau, neu i gynnig syniadau newydd.

Cynhelir digwyddiadau ar:

- 2pm-7pm, 17 Mehefin 2025, Canolfan Selwyn Samuel, Llanelli SA15 3AE
- 2pm-7pm, 20 Mehefin 2025, Neuadd Pensiynwyr Rhydaman, Rhydaman SA18 3EN
- 2pm-7pm, 25 Mehefin 2025, Ivy Bush Royal Hotel, Caerfyrddin SA31 1LG
- 2pm-7pm, 27 Mehefin 2025, HaverHub, Hwlffordd SA61 1BG
- 2pm-7pm, 30 Mehefin 2025 Canolfan y Morlan, Aberystwyth SY23 2HH
- 2pm-7pm, 4 Gorffennaf 2025, Canolfan Hamdden Dinbych-y-pysgod, Dinbych-y-pysgod SA70 8DU
- 2pm-7pm, 7 Gorffennaf 2025, Y Plas, Machynlleth SY20 8ER
- 2pm-7pm, 8 Gorffennaf 2025 Neuadd y Dref, Aberteifi SA43 1JL
- 3pm-6pm, 10 Gorffennaf 2025 Pater Hall, Doc Penfro SA72 6DD

- 3pm-6pm, 14 Gorffennaf 2025 Neuadd Goffa Aberaeron, Aberaeron SA46 0DP
- 3pm-6pm, 17 Gorffennaf 2025 Gwesty'r Castell, Llanymddyfri SA20 0AP

Neu ymunwch â ni ar-lein!

I gofrestru ar gyfer digwyddiad ar-lein neu am fwy o wybodaeth:

ewch i'n gwefan [biphdd.gig.cymru/ ymgynghoriad-gwasanaethau-clinigol](biphdd.gig.cymru/ymgynghoriad-gwasanaethau-clinigol) neu ffoniwch 0300 303 8322 (opsiwn 5)

Os dymunwch dderbyn copi papur neu os oes angen fformat mwy hygyrch arnoch, ffoniwch ni ar 0300 303 8322 (cyfraddau galwadau lleol) a dewiswch opsiwn 5 'gwasanaethau eraill'.

Rhannwch eich barn erbyn dydd Sul 31 Awst 2025

## Poster i'w rannu am eiriolaeth!

Mae Eiriolaeth Gorllewin Cymru bellach yn cynnig gwasanaeth eiriolaeth iechyd meddwl i bob oed ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro!

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar [https://advocacywestwales.org.uk/](https://advocacywestwales.org.uk/)




## Cyfarfod Galw Heibio Cyfathrebu ac Ymgysylltu Gorllewin Cymru

Cyfarfod Galw Heibio Cyfathrebu ac Ymgysylltu misol anffurfiol Gorllewin Cymru fydd hwn. Mae'r cyfarfod yn agored i'r sector cyhoeddus, sefydliadau preifat, sefydliadau'r trydydd

sector a grwpiau cymorth. Bydd yr un eitemau ar agenda'r cyfarfod bob tro, gyda'r nod o leihau dyblygu a gwella cyfathrebu/ymgysylltu ar draws y rhanbarth. Bydd yr agenda yn cynnwys:

- Cyflwyniadau
- Unrhyw waith ymgysylltu parhaus, ei bwrpas a'r canlyniadau a fwriedir (e.e. arolygon, ymgyngoriadau, gweithdai neu ymgyrchoedd marchnata ledled Gorllewin Cymru – lle i drafod rhannu adnoddau a nodi cydweithio perthnasol.)
- Unrhyw ddigwyddiadau sy'n mynd rhagddynt ar draws y rhanbarth (e.e. cynulleidfa darged, pwrpas, pwy sy'n cefnogi/mynychu)
- Unrhyw waith ymchwil sydd ei angen (e.e. lle i rannu gwaith ymchwil, ymgysylltu, ymgynghori ac ati a gynhaliwyd yn flaenorol (yn dilyn GDPR))
- Unrhyw Fater Arall

Isod mae'r ddolen ar gyfer y cyfarfod Mehefin 3ydd rhwng 10am ac 11am

## Gallet ti gael hyd at 30 awr o afal plant wedi'i ariannu - edrych i weld os wyt ti'n gymwys.




*Gallet ti gael hyd at 30 awr o afal plant wedi'i ariannu - edrych i weld os wyt ti'n gymwys.*

Neges gan un o'n partneriaid:

Mae Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru yn golygu bod llawer o rieni plant 3 i 4 oed yn gallu cael cymorth gyda chostau gofal plant.

Mae hyn yn golygu 30 awr o addysg gynnar (a elwir hefyd yn addysg feithrin) a gofal plant yng Nghymru i rieni sy'n gymwys. Mae'r 30 awr yn cynnwys lleiafswm o 10 awr o addysg gynnar yr wythnos ac uchafswm o 20 awr o ofal plant yr wythnos.

Mae hyn fel arfer o'r tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn dair oed, nes ei fod yn gymwys i dderbyn lle mewn addysg llawnamser (ysgol) - fel arfer y mis Medi ar ôl ei ben-blwydd yn bedair oed.

[Cynnig Gofal Plant Cymru | Help Gyda Chostau Gofal Plant yng Nghymru | LLYW.CYMRU]

# Mae'n Wythnos Gwirfoddolwyr o 2 Mehefin i 8 Mehefin!

Volunteers' Week is an annual UK-wide campaign held from the first Monday in June to celebrate and recognise the contributions of volunteers. We have over 50 Citizen and Third Sector Engagement members who are apart of the work that the West Wales Regional Partnership Board does and we just want to use this opportunity to say thank you for everything that you do!

Click this link to see the different ways there are to get involved in the work of the West Wales Regional Partnership Board: [https://wwrpb.org.uk/get-involved/](https://wwrpb.org.uk/get-involved/)



## Beth sy' Mlaen ar gyfer Wythnos Gwirfoddolwyr?




*1 - Neges gan Cysylltu Sir Gâr*




*2 - Neges gan Cysylltu Sir Gâr*


## Mae'n Wythnos Gofalwyr o 9 Mehefin i 15 Mehefin!

Mae'n Wythnos Gofalwyr o 9 Mehefin i 15 Mehefin!

Mae Wythnos Gofalwyr yn ymgyrch flynyddol i godi ymwybyddiaeth o ofalu, tynnu sylw at yr heriau sy'n wynebu gofalwyr di-dâl a chydnabod cyfraniad gofalwyr. Mae hefyd yn helpu pobl nad ydynt efallai yn adnabod eu hunain fel gofalwr i uniaethu fel gofalwyr i gael mynediad at gymorth.

Mwy o wybodaeth am Wythnos Gofalwyr yma: https://www.carersweek.org/

## Be sy' Mlaen yn Sir Gaerfyrddin ar gyfer Wythnos Gofalwyr?




## Be sy' Mlaen yn Sir Benfro ar gyfer Wythnos Gofalwyr?



**Pembrokeshire Directory of Micro Care & Support Services**



Find support including:
**Home Help**
**Companionship**
**Personal care**

An online directory of 'micro care & support services' – small, independent services (most are self-employed) that support people to live independently and enjoy life. These services have been supported by 'Catalysts for Care' – a not-for-profit project – to set up legally and professionally.

Browse the directory, make an enquiry, and find out more:
**planed.org.uk/projects/catalysts-for-care/**

Contact Lee James on:
**lee.james@planed.org.uk / 07535 810003**

Catalysts for Care – Micro Enterprises West Wales · PLANED · Ariennir gan Lywodraeth Cymru / Funded by Welsh Government

### Stondinau gwybodaeth ynglŷn â'r Bwrdd Iechyd cyn ac yn ystod Wythnos Gofalwyr!

GIG Cymru / NHS Wales – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda / Hywel Dda University Health Board

There will be a number of information stands around the Health Board before and during Carers Week, please see the timetable below for more details:

| Site | Date | Time | Support | Location |
|---|---|---|---|---|
| Cardigan Integrated Care Centre | Tuesday 3rd June 2025 | 10am - 3pm | Liz Gunning (Carer Officer) Beth Davies (Carer Officer) | Main Entrance Foyer |
| Aberaeron Integrated Care Centre | Wednesday 4th June 2025 | 9am - 12pm | Liz Gunning (Carer Officer) Beth Davies (Carer Officer) | Main Entrance Foyer |
| Glangwili Hospital | Monday 9th June 2025 | 10am - 3pm | Ben Innocent (Carer Officer) | Outside the Pharmacy |
| Prince Philip Hospital | Monday 9th June 2025 | 10am - 3pm | Helen Lewis (Carer Officer) | Main Entrance Foyer |
| Amman Valley Hospital | Monday 9th June 2025 | 3pm - 5pm | Julie Jones (Carer Officer) | Main Entrance Foyer |
| South Pembs Hospital | Monday 9th June 2025 | 10am - 5pm | Sophie Maher (Carer Officer) | Main Entrance Foyer |
| Bronglais Hospital | Tuesday 10th June 2025 | 10am - 2pm | Liz Gunning (Carer Officer) Beth Davies (Carer Officer) | Outpatient Foyer Main Entrance |
| Tenby Cottage Hospital | Wednesday 11th June 2025 | 10am - 3pm | Sophie Maher (Carer Officer) | Main Entrance Foyer |
| Withybush Hospital | Wednesday 11th June 2025 | 9am - 3:30pm | Sue Novis (Carer Officer) | Main Entrance Corridor |
| | Thursday 12th June 2025 | 9am - 4pm | Information display only | |
| Llandovery Community Hospital | Thursday 12th June 2025 | 2pm - 4pm | Julie Jones (Carer Officer) | Corridor leading to ward |
| Park House Court Nursing Home, Tenby | Thursday 12th June 2025 | 2pm - 5pm | Sophie Maher (Carer Officer) | Tenby Cottage Ward |

Hywel Dda University Health Board

CarersTeam.HDD@wales.nhs.uk

*3 - Mae pdf ar gael, cysylltwch â wwrpb@sirgar.gov.uk i gael y wybodaeth hon.*

## Digwyddiadau i Dod

### Cynrychiolydd Dinasyddion a'r Trydydd Sector

Os hoffech ddod i'r cyfarfod nesaf ar Dydd Mawrth 17 Mehefin 2025, anfonwch neges atom at wwrpb@sirgar.gov.uk. Bydd Dr Becca Stillwell, Seicolegydd Clinigol, yn bresennol i drafod gwasanaethau Dementia yn Hywel Dda.

### Beth sydd ymlaen ym mis Mehefin?

02.06.25 Open Day at  Adferiad Mental Health Preventative Services, Carmarthenshire Carers Information and Support Service and The Carmarthenshire Sanctuary

05.06.25 - Organisation Support Drop in 11am to 1pm ran by NACRO at Neuadd Tysul Hall, New Road, Llandysul SA44 4QL.

10.06.25 - Keeping Well Roadshow Pembrokeshire 10am to 3pm at the VC Gallery, Pembroke Dock.

10.06.25 - Carers Week Wellbeing and Information Day 11am to 3pm at the Living Well Centre, Parc Dewi Sant, Carmarthen, SA31 3HG

11.06.25 - Organisation Support Drop in 11am to 1pm ran by NACRO at Our Lady Queen of Peace RC Church, Castle Street, Newcastle Emlyn SA38 9AF.

13.06.25 - Employment Support Drop 11am to 1pm at the Carmarthen Excel Foodbank, Old Llansteffan Road, Carmarthen SA31 3BP.

13.06.25 - Carers Week Wellbeing and Information Day 11am to 1pm at the Haverhub, Quat Street, Haverfordwest, SA61 1BG.

14.06.25 - Aberystwyth Show, SY23 3HP

14.06.25 - Wellbeing and Empowerment Festival, Parc Dewi Sant, Carmarthen, 11am onwards.

14.06.25 - Carmarthenshire Therapy Dogs Family Doggy Fun Day, Parc Dewi Sant, Carmarthen. 11am onwards.

16.06.25 - Organisation Support Drop in 11am to 1pm ran by NACRO at Llandovery Youth & Community Centre, Gerwyn House, 19th Market Square, Llandovery SA20 0AB.

17.06.25 - Organisation Support Drop in 11am to 1pm ran by NACRO at Llandeilo Civic Hall, 17 Crescent Road, Llandeilo SA19 6HW.

17.06.25 - Organisation Support Drop in 11am to 1pm ran by NACRO at Capel Hen, Pencader, SA39 9BP

20.06.25 - Parc Dewi Sant Open Day 10am to 3pm.

20.06.25 - Trinity St David Open Day, Cardiff, 10am to 3pm.

27.06.25 - Organisation Support Drop in 11am to 1pm ran by NACRO at Whitland Memorial Hall, Kind Edward Street, Whitland SA34 0AA

27.06.25 - Organisation Support Drop in 11am to 1pm ran by NACRO at Whitland Memorial Hall, Kind Edward Street, Whitland SA34 0AA

27.06.25 - Employment Support Drop 10am to 12pm at the Ammanford Foodbank, Y Llusern, Wind Street, Ammanford 3DR.

01.07.25 - West Wales Dementia Conference - Invite Only - Please contact wwrpb@carmarthenshire.gov.uk for more information if this would be of interest to you.










## Pembrokeshire Keeping Well Roadshow!

Rhannwch gyda'ch rhwydweithiau




## The Wallich - Drop In for Housing Support

Rhannwch gyda'ch rhwydweithiau




## Ydych chi'n ein dilyn ni?

Rydym wedi dechrau tudalen LinkedIn yn ddiweddar. Cofiwch ein dilyn ni a sôn amdanom yn eich postiadau pan fyddwch yn cymryd rhan yn y gwaith a wnawn. Byddem wrth ein bodd yn clywed am hynny!

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru
West Wales Regional Partnership Board

on Facebook @PGGCWWCP

on Instagram @PGGCWWCP

on X @PGGCWWCP

on LinkedIn @ West Wales Regional Partnership Board

on our website @ https://www.wwrpb.org.uk/

## Cysylltu â ni!

Os oes gennych gynnwys yr hoffech ei rannu ar draws ein sianeli yn y cyfryngau, neu unrhyw awgrymiadau ar gyfer rhifynnau yn y dyfodol, rhowch wybod i ni ar wwrpb@sirgar.gov.uk Y tîm yn edrych ymlaen at glywed gennych chi a datblygu'r llythyr newyddion yn adnodd defnyddiol a llawn gwybodaeth. Bydd eich adborth yn ein helpu i gyflawni hynny, ac yn sicrhau bod y llythyr newyddion yn cael ei ddosbarthu ac yn cael ei ddarllen!

#WWRPB
@PGGCWWCP

Ewch i'n gwefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf: www.wwrpb.org.uk

Ymholiadau pellach: wwrpb@carmarthenshire.gov.uk